## DISQUALIFICATION FROM SERVICE AS A GOVERNOR

### The following are disqualified from being a governor:

- a person aged under 18
- any person who is already a governor of two maintained schools, except as an additional governor of a school in special measures, or as a member of a temporary governing body;
- a governor who without the consent of the governing body has failed to attend a meeting of the governing body for a period of six months from the date of the last meeting he/she attended;
- anyone who has been adjudged a bankrupt until he/she has been discharged;
- anyone who is disqualified under the Company Directors Disqualification Act 1986, or who has failed to make payments required by a county court administration order under the Insolvency Act 1986;
- a person who has been removed from office in a charity by order of the Charity Commission or the High Court, because of mismanagement or misconduct for which he/she was responsible;
- a person who is

(a) subject to a direction issued by the Secretary of State under s142 of the Education Act 2002, including a direction given that he/she is included on the list of persons considered unsuitable to work with children under s1 of the Protection of Children Act 1999;

(b) disqualified from working with children under the Protection of Children Act 1999 or is subject to a direction under s142 of the 2002 Act, or s28 and 29 of the Criminal Justice and Court Services Act 2000.

- any person with a criminal conviction who:

(a) within the last five years has received without option of a fine, a prison sentence of not less than three months;

(b) within the last twenty years has received a sentence of not less than two and a half years;

(c) at any time has received a sentence of not less than five years, or

(d) has been convicted for making a nuisance on the premises of a maintained school under s547 of the Education Act 1996;any person who has been declared unsuitable to be the proprietor of or teacher in an independent school under s470 or s471 of the Education Act 1996;

- a person who refuses to apply for a criminal record certificate under s113 of the Police Act 1997 after having been requested to do so by the governing body.

# Governor Support Service

# Parent Governor Election Guide

CYFLAWNI TEGWCH A RHAGORIAETH MEWN ADDYSG A GWELL LLES I BAWB

EQUITY AND EXCELLENCE IN EDUCATION AND ENHANCED WELLBEING FOR ALL

## Applying To Become A Parent Governor in Rhondda Cynon Taf

The governing body of your child's school has, **with immediate effect, a vacancy for a parent governor,** and is looking for parents who are interested in this role. A parent governor is a person with parental responsibility for a pupil attending the school.

The role of governor is an important one, governing bodies are responsible for a variety of functions connected with the effective running of the school, including curriculum, budgeting and staffing matters. You will be supported in these duties by other experienced members of the governing body, the headteacher and the Governor Support Officer.

The Authority will provide relevant support and information. Training is provided free of charge. The Welsh Government requires all new governors to undertake Induction training and training on Use of Data within a year from their date of appointment. This is a mandatory requirement.

The governing body works together as a group attending a minimum of three meetings per year. If elected you will serve for a period of four years. If your child leaves the school during this time you do not have to stand down. Should you wish to end your governorship at any time you may do so by giving written notice.

Before completing the form please ensure that you comply with the disqualification regulations given on the back.

The Governor Support Team values your interest. We would welcome the opportunity to answer any queries you may have, about becoming a governor, by telephone, e-mail or face-to-face (at your local school).

☎ 01443 281162

governor.support@rhondda-cynon-taf.gov.uk

**Parent Governors in Nursery Schools are only elected/appointed for 2 years*

In line with Rhondda Cynon Taf's legal duty to process your data, the information you give us will be used and shared for school governor appointments only. Should you be successful, the information will be used and shared for general school governor functions and training as stated in our service privacy notice.

The Council is committed to keeping your personal information safe and secure and keeping you informed about how we use your information. To learn about how your privacy is protected and how and why we use your personal information to provide you with services, please visit our service privacy notice here www.rctcbc.gov.uk/serviceprivacynotice and the Councils data protection pages here www.rctcbc.gov.uk/dataprotection.

Cyfiawnder a Rhagoriaeth mewn Addysg a Gwell Lles i Bawb
Equity and Excellence in Education and Enhanced Wellbeing for All

## PARENT GOVERNOR ELECTION
## YSGOL GYNRADD GYMRAEG PENDERYN
## NOMINATION FORM

I confirm that I am prepared to stand for election as a parent governor to the governing body of the above-mentioned school and that I am a parent/carer of a pupil who currently attends this school.

I have read the guidance and the criteria overleaf and declare that I am not disqualified from serving as a school governor. I also confirm that, if my circumstances change in any way which prohibits me from continuing to be eligible to serve as a school governor, I will immediately notify the headteacher, chair of governors and the Head of the LA's School Organisation, Planning and Governance Service of this fact.

I have been made aware of and I understand that the information on this form (and any additional information attached) will be used by Governor Support for school governor purposes only.

**This section <u>must</u> be completed, print in black ink please.**

Mr/Mrs/Miss/Ms/Other............... Male: Female: Date of Birth:...../...../.....

First Name:.....................Surname:...................Middle Name:..................

Parent/Guardian of:.........................................................................................

Address: ..............................................................Post Code:...............

Home Tel:..............................Work Tel:................................................

Mobile:..................................Email Address:..........................................

Signed:...................................... Date:..........................................

**<u>N.B</u>**. - If you wish, you may include a few details about yourself, **<u>in not more than 50 words</u>.** You do not have to complete this section but you may put yourself at a disadvantage if there is an election*.
**If applications exceed the 50 word limit, only the first 50 words submitted will be used.**

| |
|---|
| |

**<u>TO BE RETURNED TO YOUR CHILD'S SCHOOL BY 12 NOON ON WEDNESDAY 14TH MAY 2025</u>**

*An election will be held if more nominations are received than there are vacancies.

## UNRHYW RAI SYDD WEDI'U GWAHARDD RHAG BOD YN LLYWODRAETHWYR

**Dyma'r rheoliadau sy'n gwahardd pobl rhag bod yn llywodraethwyr:**

- Unrhyw rai sy'n dioddef problemau'r meddwl a fydd yn golygu eu bod nhw'n agored i gael eu caethiwo dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983;
- Unrhyw rai sydd dan 18 oed;
- Unrhyw rai sydd eisoes yn llywodraethwyr mewn dwy ysgol sy'n cael eu cynnal, ac eithrio bod yn llywodraethwyr ychwanegol mewn ysgolion sy'n destun mesurau arbennig, neu aelodau o gyrff llywodraethu dros dro;
- Llywodraethwyr sydd, heb ganiatâd y cyrff llywodraethu, wedi methu â mynychu cyfarfodydd y cyrff llywodraethu am gyfnod o chwe mis ers dyddiad y cyfarfod diwethaf roedden nhw'n bresennol;
- Unrhyw rai sydd wedi'u dyfarnu'n fethdalwyr tan eu bod nhw'n cael eu rhyddhau rhag y methdaliad;
- Unrhyw rai sydd wedi'u gwahardd dan Ddeddf Gwahardd Cyfarwyddwyr Cwmni 1986, neu sydd wedi methu â gwneud taliadau yn unol â gorchymyn gweinyddu llys sirol dan Ddeddf Ansolfedd 1986;
- Unrhyw rai sydd wedi cael eu gwahardd o'u swyddi nhw mewn elusennau dan orchymyn y Comisiwn Elusennau neu'r Uchel Lys, yn sgil materion camweinyddu neu gamymddwyn yr oedden nhw'n gyfrifol amdanyn nhw;
- Unrhyw rai sydd

(a) Yn destun cyfarwyddyd wedi'i gyhoeddi gan yr Ysgrifennydd Gwladol dan adran 142 Deddf Addysg 2002, gan gynnwys cyfarwyddyd sy'n cyhoeddi eu bod nhw'n cael eu cynnwys ar restr y bobl sy'n cael eu hystyried yn anaddas i weithio gyda phlant dan adran 1 Deddf Amddiffyn Plant 1999;

(b) Wedi'u gwahardd rhag gweithio gyda phlant dan Ddeddf Diogelu Plant 1999 neu'n destun cyfarwyddyd dan adran 142 Deddf 2002, neu adrannau 28 a 29 Deddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llys 2000.

- Unrhyw rai sydd wedi'u cael yn euog ac:

(a) Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, wedi cael dedfryd sydd o leiaf tri mis o hyd, heb gael dewis i dalu dirwy;

(b) Yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf, wedi cael dedfryd sydd o leiaf dwy flynedd a hanner o hyd;

(c) Ar unrhyw adeg, wedi cael dedfryd sydd o leiaf pum mlynedd o hyd;

(ch) Wedi cael eu dyfarnu am fod yn niwsans ar dir ysgol sy'n cael ei chynnal dan adran 547 Deddf Addysg 1996;

- Unrhyw rai sydd wedi cael eu datgan yn anghymwys i fod yn berchnogion ar ysgolion annibynnol, neu'n athrawon ynddyn nhw dan adrannau 470 neu 471 Deddf Addysg 1996;
- Unrhyw rai sy'n gwrthod cyflwyno cais am dystysgrif cofnod troseddol dan adran 113 Deddf yr Heddlu 1997 ar ôl i'r corff llywodraethu ofyn iddyn nhw wneud hynny.

# Gwasanaeth Cymorth i Lywodraethwyr

# Canllaw Ethol Rhiant Lywodraethwyr

CYFLAWNI TEGWCH A RHAGORIAETH MEWN ADDYSG A GWELL LLES I BAWB

EQUITY AND EXCELLENCE IN EDUCATION AND ENHANCED WELLBEING FOR ALL

## Cyflwyno Cais i fod yn Rhiant Lywodraethwr

Mae gan gorff llywodraethu ysgol eich plentyn chi un neu ragor o gyfleoedd i riant lywodraethwyr. Mae'r corff yn edrych am rieni sydd â diddordeb yn y dyletswydd yma. Mae rhiant lywodraethwr yn berson sydd â chyfrifoldeb rhiant am ddisgybl sy'n mynychu'r ysgol.

Mae dyletswydd llywodraethwyr yn bwysig. Mae cyrff llywodraethu'n gyfrifol am gyflawni amrywiaeth o swyddogaethau sy'n ymwneud â chynnal yr ysgol mewn modd effeithiol, gan gynnwys y cwricwlwm, materion cyllid a staffio. Bydd aelodau profiadol eraill o'r corff llywodraethu, y pennaeth a'r Swyddog Materion Cymorth i Lywodraethwyr yn rhoi cymorth i chi ynglŷn â'r swyddogaethau yma.

Bydd yr Awdurdod yn cynnig cymorth a gwybodaeth berthnasol. Mae hyfforddiant ar gael am ddim. Mae Llywodraeth Cymru yn dweud bod rhaid i bob llywodraethwr newydd gyflawni cwrs sylfaen, ac hyfforddiant ar Ddefnyddio Data yn ystod y flwyddyn gyntaf.

Mae'r corff llywodraethu'n cydweithio ac yn mynychu o leiaf tri o gyfarfodydd bob blwyddyn. Fel rhan o'ch dyletswydd chi, byddwch chi, fel arfer, yn dal eich swydd chi am bedair blynedd*, hyd yn oed os bydd eich plentyn chi'n gadael yr ysgol yn ystod y cyfnod yma. Ond mae modd cynnig ymddiswyddo ar bapur ar unrhyw adeg.

Mae dod yn llywodraethwr yn amodol ar reoliadau penodol. Cyn llenwi'r ffurflen enwebu, darllenwch restr y meini prawf ar y dudalen gefn er mwyn gwirio eich bod chi'n gymwys.

Mae Carfan Cymorth i Lywodraethwyr yn gwerthfawrogi'ch diddordeb chi. Croeso i chi gysylltu â ni os oes gennych chi unrhyw gwestiynau ynglŷn â bod yn llywodraethwr, naill ai ar y ffôn, e-bost neu'n wyneb i wyneb (yn eich ysgol leol chi).
Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Charfan Cymorth i Lywodraethwyr:

Yn unol â dyletswydd gyfreithiol Rhondda Cynon Taf i brosesu eich data, bydd yr wybodaeth rydych yn ei darparu yn cael ei defnyddio at ddibenion apwyntiadau llywodraethwyr ysgol yn unig a'i rhannu â'r adran Cymorth i Lywodraethwyr a chorff llywodraethol yr ysgol. Os byddwch chi'n llwyddiannus, bydd yr wybodaeth yn cael ei defnyddio a'i rhannu at ddibenion cyffredinol swyddogaethau a hyfforddiant llywodraethwr ysgol fel sydd wedi'i nodi yn ein hysbysiad preifatrwydd gwasanaeth yn www.rctcbc.gov.uk/hysbysiadpreifatrwyddgwasanaeth

☎ 01443 281162
CymorthiLywodraethwyr@rhondda-cynon-taf.gov.uk

*Mae Rhiant Lywodraethwyr mewn Ysgolion Meithrin yn cael eu hethol/penodi am 2 flynedd yn unig.

CYFLAWNI TEGWCH A RHAGORIAETH MEWN ADDYSG A GWELLLES I BAWB
EQUITY AND EXCELLENCE IN EDUCATION AND ENHANCED WELLBEING FOR ALL

## ETHOL RHIANT LYWODRAETHWR
## YSGOL GYNRADD GYMRAEG PENDERYN
## FFURFLEN ENWEBU

Rydw i'n cadarnhau fy mod i am sefyll yn yr etholiad i ddod yn rhiant-lywodraethwr ar gorff llywodraethu'r ysgol sydd wedi'i nodi uchod, a fy mod i'n rhiant/cynhaliwr (gofalwr) i blentyn sy'n ddisgybl yn yr ysgol yma ar hyn o bryd.

Rydw i wedi darllen y meini prawf dros y dudalen ac rydw i'n datgan bod gen i hawl i fod yn rhiant lywodraethwr. Rydw i hefyd yn cadarnhau y bydda i'n rhoi gwybod i'r pennaeth, cadeirydd y llywodraethwyr a Phennaeth Gwasanaeth Cymorth i Lywodraethwyr yr Awdurdod Addysg ar unwaith os bydd fy amgylchiadau i'n newid mewn unrhyw ffordd a fyddai'n fy ngwahardd i rhag parhau i fod yn llywodraethwr ysgol.
Rwy'n effro i'r ffaith, ac yn deall y bydd yr wybodaeth ar y ffurflen yma (ac unrhyw wybodaeth ychwanegol sydd ynghlwm) yn cael ei defnyddio at ddibenion llywodraethwr ysgol yn unig.
**Rhaid i chi lenwi'r adran yma. Defnyddiwch inc du.**

Mr/Mrs/Miss/Ms/Arall............... Dyn: ☐ Dynes: ☐ Dyddiad geni:..../....../.........

Enw bedydd:....................Cyfenw:...................Enw canol:.........................

Rhiant/Gwarcheidwad:...........................................................................

Cyfeiriad: ...........................................................Côd y Post:...............

Ffôn gartref:............................Gwaith:..................................................

Symudol:...................................E-bost:...............................................

Llofnod:....................................... Dyddiad:...................................

**D.S.** - Mae croeso i chi gynnwys rhai manylion amdanoch chi'ch hun, **hyd at 50 o eiriau.** Does dim rhaid i chi lewni'r adran yma, ond efallai y byddwch chi o dan anfantais os bydd angen cynnal etholiad*.
**Os ydych chi'n nodi dros 50 o eiriau, dim ond yr 50 cyntaf byddwn ni'n eu darllen.**

**I'W DYCHWELYD I YSGOL EICH PLENTYN CHI ERBYN 12 HANNER DYDD MERCHER 14 MAI 2025**

*Bydd etholiad yn cael ei gynnal os bydd nifer yr enwebiadau yn fwy na nifer y cyfleoedd.